**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Gan:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** Tachwedd 2010

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: Newidiadau arfaethedig yn ymwneud â swyddi a phenodiadau'r Cynulliad**

**Diben**

1. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â swyddi a phenodiadau'r Cynulliad: Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5 a chynnig ar gyfer Rheol Sefydlog 33A newydd.

**Cefndir**

2. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Adolygiad yn ystyried newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn:

- gwella eglurder y Rheolau Sefydlog;
- sicrhau eu bod yn cyfateb â chonfensiynau cyffredinol y Trydydd Cynulliad a'i ffordd o weithio; a,
- chaniatáu ar gyfer arloesedd a gwelliant.

3. Mae'r papur yn pennu'r cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a ganlyn:

- Y Llywydd a'r Dirprwy (Rheol Sefydlog 2);
- Comisiwn y Cynulliad (Rheol Sefydlog 3);
- Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru (Rheol Sefydlog 4).

4. Ni chynigir unrhyw newidiadau i Reol Sefydlog 5 ar Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5. Cynigir hefyd y dylai fod Rheol Sefydlog cyffredinol newydd sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer penodiadau ac enwebiadau eraill y Cynulliad (Rheol Sefydlog 33A). Byddai hyn yn osgoi'r angen i gael Rheol Sefydlog ar wahân ar gyfer pob deiliad swydd y mae'n ofynnol i'r Cynulliad ei benodi neu ei enwebu.

6. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn Atodiad A i'r papur hwn. Ceir 'fersiynau glân' o'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig, yn Atodiad B i'r papur hwn.

**Y prif newidiadau a gynigir i'r Rheolau Sefydlog**

*Rheol Sefydlog 2: Y Llywydd a'r Dirprwy*

7. Cynigir y prif newidiadau a ganlyn i Reol Sefydlog 2 (gweler Atodiad A i gael y manylion llawn):

- dylai swyddogaethau'r Llywydd gynnwys y rôl o gynrychioli'r Cynulliad i adlewyrchu arfer sefydledig (diwygio RhS 2.15). Byddai newid o'r fath yn sicrhau bod y disgrifiad o'r rôl yn cyfateb i'r hyn sydd yn Senedd yr Alban;

- yn unol â'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod ar 2 Tachwedd pan ystyriodd y Pwyllgor y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â busnes y cyfarfod llawn, sef dull symlach i'r Llywydd gyhoeddi canllawiau i Aelodau ar gynnal busnes y Cynulliad; byddai'r ddarpariaeth hon wedyn yn gymwys yn gyffredinol pryd bynnag y cyfeirir at y Llywydd yn rhoi cyfarwyddiadau (RhS 2.17);

- caniatáu i'r Llywydd a'r Dirprwy bleidleisio, yn eithriadol, pan fydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod pleidlais ar benderfyniad yn dibynnu ar gyfran cyfanswm Aelodau'r Cynulliad (40 o'r 60 Aelod) yn hytrach na dwy ran o dair o'r rheini sy'n pleidleisio (RhS 2.20A newydd).

*Rheol Sefydlog 4: Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru*

8. Gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried a ydynt am newid y weithdrefn ffurfiol ar gyfer enwebu Prif Weinidog Cymru.

9. Ar hyn o bryd, os un enwebiad yn unig a wneir, caiff ei ddatgan mai'r person hwnnw yw'r enwebai. Gan hynny, ni roddir y cyfle i Aelodau gofrestru eu cefnogaeth i'r enwebai neu fel arall. Pe bai Aelodau am wneud hynny, byddai'n rhaid cyflwyno ail ymgeisydd a fyddai wedyn yn arwain at gynnal pleidlais drwy alw'r gofrestr lle y gofynnir i Aelodau bleidleisio dros un o'r ymgeiswyr.

10. Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer diddymu'r Cynulliad a chynnal etholiad cyffredinol os na chaiff Prif Weinidog Cymru ei benodi o fewn 28 diwrnod (adran 5(3)). Felly, gellir dadlau y dylai'r Rheolau Sefydlog, er mwyn bod yn gyson â'r Ddeddf, ddarparu ar gyfer sefyllfa lle y bydd y mwyafrif o Aelodau'r Cynulliad am bleidleisio yn erbyn y sawl a enwebwyd yn Brif Weinidog Cymru o fewn 28 diwrnod i ddigwyddiad fel y pennir yn y Ddeddf, hyd yn oed os mai un enwebiad a wneir. Fel y pennir yn y Ddeddf, gallai'r sefyllfa hon godi nid yn unig ar ôl etholiad cyffredinol, ond hefyd os

yw'r swydd yn wag o ganlyniad i gynnig o ddiffyg hyder, neu os bydd Prif Weinidog Cymru yn ymddiswyddo, yn marw neu'n peidio â bod yn Aelod Cynulliad. Cyngor Prif Gynghorwr Cyfreithiol y Cynulliad yw nad yw'r ddadl gyfreithiol hon, er ei bod yn berthnasol i'r Pwyllgor ei hystyried, yn ddigon cryf i wneud y newid i'r Rheol Sefydlog (a fyddai'n sicrhau bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cyfateb i'r hyn a geir yn Senedd yr Alban) yn orfodol, os mai barn Aelodau yw y dylid cadw'r trefniant presennol.

11. Ceir darpariaethau eraill yn y Rheolau Sefydlog a'r Ddeddf, wrth gwrs, sy'n caniatáu i Aelodau geisio pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinidogion Cymru neu (os ceir cefnogaeth o leiaf 40 Aelod) a fyddai'n arwain at etholiad cyffredinol anghyffredin.

12. Felly, gwahoddir y Rheolwyr Busnes i ystyried a ddylid diwygio Rheol Sefydlog 4 ai peidio er mwyn sicrhau y cynhelir pleidlais os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu'r enwebiad.

*Rheol Sefydlog 33A: Penodiadau*

13. Heblaw'r swyddi hynny a restrir yn Rheolau Sefydlog 1-5, mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn penodi neu'n enwebu: Archwilydd Cyffredinol Cymru[1]; y Comisiynydd Safonau[2]; a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.[3] Caiff y Cynulliad hefyd derfynu penodiad y Bwrdd Taliadau (drwy benderfyniad a gynigir gan y Comisiwn).[4]

14. Cynigir y dylid cael un Rheol Sefydlog sy'n pennu gweithdrefn gyson ar gyfer penodi swyddi allanol (a'u terfynu) na chânt eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog fel arall. Byddai'r Rheol Sefydlog yn ddarostyngedig i unrhyw amodau statudol, fel unrhyw ofyniad sy'n ymwneud â'r mwyafrif sy'n ofynnol er mwyn pasio penderfyniad.

15. Byddai'r Rheol Sefydlog hefyd yn galluogi pwyllgorau i gynnal gwrandawiad cyn y penodiad, cyn gofyn i'r Cynulliad yn ffurfiol i wneud y penodiad. Byddai hyn yn ffordd agored a thryloyw o graffu ar waith yr ymgeisydd a byddai'n cyfrannu at y broses mewn ffordd bwysig ac yn rhoi mwy o hyder i'r Cynulliad yn yr ymgeisydd a ddewiswyd. Cafodd yr arfer hon ei threialu eleni gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â phenodi'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd Safonau yn y drefn honno.

[1] Deddf Llywodraeth Cymru, Atodlen 8, paragraff 14,
[2] RhS 33, a'r Mesur Safonau, adran.1
[3] paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005
[4] Y Mesur Taliadau, adran.5

## Penderfyniad

16. Gwahoddir y Pwyllgor i:

(i) gwneud sylwadau ar y cynigion fel y'u nodir ym mharagraffau 7 i 15 ac Atodiad A i'r papur, a chytuno mewn egwyddor ar unrhyw newidiadau i Reolau Sefydlog 2,3, 4 a'r cynnig ar gyfer Rheol Sefydlog 33A newydd.